12 Camau nesaf

137. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyfeiriad cyffredinol y daith a'r bensaernïaeth ar gyfer system newydd. Fodd bynnag, fel yr adlewyrchwyd yn yr argymhellion, mae llawer mwy i'w wneud i ddatblygu rhaglen o newid gwbl gadarn a phrofedig. Mae'n hanfodol i'r Llywodraeth ddysgu o'r problemau a wynebwyd wrth gynnal diwygiadau blaenorol i'r system cynnal plant.

138. Mae symud o'r sefyllfa bresennol i system gyflwyno newydd yn her fawr ac mae angen ei rheoli'n ofalus. Argymhellaf y dylid pennu Bwrdd Rhaglen penodol i dywys y broses hon. Dylai gynnwys amrywiaeth o arbenigedd o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac adrannau eraill y llywodraeth, yn ogystal â sgiliau allanol arbenigol mewn meysydd allweddol, er mwyn sicrhau y dilynir yr arfer gorau ym maes cynllunio gwasanaethau cyhoeddus. Gyda chymorth Swyddfa Rhaglen, dylai fod ganddo gyfrifoldebau clir dros gyflwyno'r bensaernïaeth sefydliadol a'r rhyngwyneb priodol â chwsmeriaid a systemau cyflwyno wedi'u profi'n drwyadl.

139. Rwyf wedi codi cyfres o welliannau polisi posibl a chamau symleiddio y mae angen gwaith pellach arnynt i'w troi'n gamau gweithredu penodol. Er mai'r Adran Gwaith a Phensiynau fydd yn gyfrifol amdanynt, bydd angen cydweithio agos rhwng nifer o adrannau'r llywodraeth ar sawl un ohonynt. Dylai'r Llywodraeth amlinellu sut y mae'n bwriadu eu datblygu yn ei hymateb ffurfiol i'r adroddiad hwn.

140. Mae polisi cynnal plant wedi cael ei ddiwygio sawl gwaith ac mae'r diwygiadau hynny wedi methu â chyflawni er budd plant a theuluoedd. Ni allwn barhau ar y trywydd hwn. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cyfle gwirioneddol i newid y mae'n rhaid gafael ynddo a'i wireddu er mwyn creu system cynnal plant sy'n addas at yr 21ain ganrif.